# GWASANAETH NEGES HEDDWCH AC EWYLLYS DA YR URDD 2015

**GOLYGFA:**
*Pedwar disgybl yn eistedd fel pe tai nhw mewn car. Mam a dad yn y tu blaen a dau blentyn yn y cefn. Mae'r car yn llonydd ar hyn o bryd, o bosib yn sownd mewn traffig.*

*PLENTYN 1:* *Ble mae Dyffryn Camwy?*

*PLENTYN 2:* *Dwi wedi cael llond bol, gawni fynd o 'ma?*

*PLENTYN 1:* *Mam, ble mae Dyffryn Camwy?*

*PLENTYN 2:* *Alla i ddim diodda hyn.*

*PLENTYN 1:* *Ble mae Dyffryn Camwy?*

**CYFLWYNIAD LLAFAR** (I'w rannu rhwng disgyblion yn addas)**:**
David Bowen a'i wraig a'i blant.

Ada a William Jones.

James Berry Rhys

Y Parch. Esau Evans.

John Caerenig Evans a'i chwaer Eliza.

Dim ond rhai o enwau'r Cymry a ymfudodd i Dde America yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Oeddan nhw'n chwilio am rhywbeth, neu'n dianc? Oeddan nhw'n obeithiol, neu anobaith a'u gyrrodd?

Eleni rydym ni'n dathlu cant a hanner o flynyddoedd ers i'r Cymry cyntaf fentro i ochr arall y byd ar fwrdd y Mimosa. Rydym yn dathlu gan fod eu llinach, eu hiaith a'u traddodiad wedi para, a bod ein perthynas ni heddiw â'r Archentwyr Cymraeg ym Mhatagonia yn gryfach nac erioed.

Roeddan nhw ar drywydd bywyd gwell. Roedd y daith yn un arw.

**GOLYGFA:**
*Mae'r plant yn swnian ar mam a dad.*

*PLENTYN 1:* *Dani yna eto?*

*PLENTYN 2:* *Dwi'n teimlo'n sal.*

*PLENTYN 1:* *Mewn faint fyddwn ni yna?*

*PLENTYN 2:* *Dad, oes gen ti botel o ddŵr?*

*PLENTYN 1:* *Dani yna eto?*

*PLENTYN 2:* *Gawni stopio am snacs?*

**CYFLWYNIAD LLAFAR:**
Mae'n anodd dychymgu eu taith. Ond wedi iddyn nhw gyrraedd, dyna pryd yr oedd y gwaith caled yn dechrau. Doedd dim yn eu disgwyl yno.

**GOLYGFA:**
*Yn ôl at y teulu yn y car. Maent wedi cyrraedd, yn eistedd yn y car yn edrych allan. Mae mam a dad yn edrych o'u cwmpas yn boenus.*

*PLENTYN 1:* *Fan hyn? Ond does na ddim byd yma.*

*PLENTYN 2:* *Gawni fynd adra?*

*PLENTYN 1:* *Fedra i ddim credu hyn, does 'na ddim hyd yn oed gwesty i ni.*

*PLENTYN 2:* *Dad, tro'r car rownd*

**CYFLWYNIAD LLAFAR:**
Mae'n anodd dychymgu'r ymateb§. Ond roedd y dyffryn diffaith yn llawn gobaith. Roedd eu dyfodol a'u parhad yn eu dwylo fel caib a rhaw.

Ymfudodd cannoedd o Gymry yno. Roeddan nhw'n feiddgar, yn ddewr, ac yn barod i ymladd am eu bodolaeth mewn lle oedd yn ddieithr ym mhob ystyr.

Ond ymladd gyda chwys gwaith a sefydlu trefi megis Porth Madryn yn y Bae Newydd;

Trefelin yng Nghwm Hyfryd.

Ac yn Nyffryn Camwy, Y Gaiman,

Rawson,

Trelew,

a Dolafon.

Er iddynt sefydlu cymdeithas Gymreig a Chymraeg, roeddant yn deyrngar i'w gwlad newydd, a chyda cenedlaethau wedi mynd mae 'na Archentwyr yn siarad Cymraeg ac yn dilyn traddodiad a diwylliant ein gwlad fach o hyd.

A thrwy ddathlu eleni, ble bynnag mae ein taith yn ein harwain, os oes 'na newid byd o'n blaena, fe gadwn Gymry'r Mimosa'n yn ein côf.

Nid dieithriaid fydd yn nrych y tir newydd.

Gweledigaeth fydd yn ein gyrru, nid anobaith.

Cofiwn ein hunaniaeth drwy barchu'r byd newydd ac addasu er mwyn ein hunain a'r dyfodol.

Felly meddylia,

Ble mae Dyffryn Camwy?
Nid y dyffryn hwnnw yn ne'r Ariannin
Ble mae chwys Cymru'r Mimosa'n gwlitho'r gwreiddiau,
A gwaed yr hen wlad yn rhedeg drwy wythiennau,
Ond dy Ddyffryn Camwy di.
Wyt ti am ei wneud yn fyd gwell?